| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR.** |
| **DYDDIAD:** | **22, HYDREF, 2009.** |
| **TEITL;** | **UNED BENTHYCIADAU ARIAN ANGHYFREITHLON CYMRU** |
| **PWRPAS:** | **I WNEUD TREFNIADAU I GANIATAU I UNED BENTHYCIADAU ARIAN ANGHYFREITHLON CYMRU WEITHREDU YNG NGWYNEDD.** |
| **ARGYMHELLIAD:** | **AWDURDODI GWNEUD CYTUNDEB GYDA CHYNGOR SIR CAERDYDD AR GYFER CYFLAWNI SWYDDOGAETHAU YN YMWNEUD A RHAN III O DDEDDF CREDYD CWSMERIAID 1974 O FEWN GWYNEDD** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO:** | **CYNG. J. R. JONES, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO - ADNODDAU.** |
| **AWDUR:** | **DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL, A<br>ALED DAVIES, PENNAETH RHEOLEIDDIO.** |

## 1. CEFNDIR.

1.1 Y prif ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r diwydiant credyd cwsmeriaid ydi'r Ddeddf Credyd Cwsmeriaid 1974. Mae Adran 161 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau Pwysau a Mesur i orfodi ei darpariaethau o fewn ardal pob awdurdod. Yng Ngwynedd mae'r ddyletswydd hon wedi ei dirprwyo i'r Pennaeth Rheoleiddio ac mae gorfodaeth o'r Ddeddf yn cael ei ymgymryd gan swyddogion wedi eu hawdurdodi ganddo ac yn gweithio oddi fewn i Uned Safonau Masnach y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

1.2 Mae Deddf Credyd Cwsmeriaid 1974 yn sefydlu trefn drwyddedu ac mae'n rhaid i bob busnes credyd cwsmeriaid neu hur-brynu yn y D.U. (gyda rhai eithriadau) gael trwydded briodol wedi ei rhoi gan y Swyddfa Masnachu Têg. Cyn caniatáu trwydded i unrhyw berson i fasnachu, mae'n rhaid i'r Swyddfa Masnachu Têg fodloni ei hun fod yr ymgeisydd am y Drwydded Credyd Cwsmeriaid yn berson addas a phriodol.

1.3 Mae gweithredu busnes credyd cwsmeriaid heb drwydded yn drosedd sy'n cario cosb uchaf o ddirwy o £5,000 a/neu dwy flynedd o garchar. Ymhellach gall y Swyddfa Masnachu Têg ddiddymu trwydded lle gellir dangos fod y trwyddedai wedi gweithredu yn amhriodol. Gall y Swyddfa Masnachu Têg roi rhybuddion ac ychwanegu amodau i'r drwydded lle'n briodol.

1.4 Mae benthyca arian yn anghyfreithlon yn cwmpasu rhychwant o weithgareddau, o bobl sydd wedi eu trwyddedu ond sydd yn gweithredu yn anghyfreithlon (e.e. drwy ganfasio i ffwrdd o eiddo masnachol) hyd at yr eithafion o berson yn cynnig benthyciadau mewn arian parod heb gael ei drwyddedu o gwbl.

1.5 Yn dilyn prosiectau peilot llwyddiannus ym Mirmingham a Glasgow, fe wahoddodd y Trysorlys a'r Adran ar gyfer Busnes Menter a Rheoleiddio (yn awr Adran Busnes, Menter a Sgiliau) fidiau ar gyfer cyllido prosiectau tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Cyflwynodd Penaethiaid Safonau Masnach Cymru fid lwyddiannus a dewiswyd Cyngor Sir Caerdydd i arwain y prosiect ar draws Cymru.

1.6 Gwaith Uned Benthyciadau Arian Anghyfreithlon Cymru ydi ymchwilio i weithgaredd benthyca arian yn anghyfreithlon, er mwyn sefydlu os oes problem, ac os oes, i ddod â'r sawl sydd yn gweithredu i gyfraith.

1.7 Bu'r Uned yn weithredol ers Chwefror 2008. Hyd yma mae wedi gweithredu yn bennaf yn Nê Cymru, ond yn awr mae yn awyddus i ymestyn ei weithgareddau ar draws Cymru gyfan. Ymysg dangosyddion perfformiad allweddol yr Uned mae:
46 achos wedi ei ymchwilio
20 arestiad
Tystiolaeth o fenthyca arian gwerth £1.09m yn anghyfreithlon
£54,300 o arian wedi ei atafaelu
Hefyd, mae'r Uned yn sefydlu cysylltiadau gyda Cyngor Ar Bopeth, Canolfannau Cynghori Ariannol, Grwpiau Cymunedol ac Undebau Credyd.

1.8 Gyda chymorth Uned Safonau Masnach Gwynedd, bu Heddlu Gogledd Cymru yn llwyddiannus mewn erlyniad yn 2008 yn erbyn person didrwydded yn benthyca arian yn ardal Bangor, ond ni wyddys beth yw gwir faint benthyciadau arian anghyfreithlon yng Ngwynedd.

**2. YSTYRIAETHAU.**

2.1 Er mwyn ymestyn gweithgareddau'r Uned Benthyciadau Arian Anghyfreithlon Cymru i Wynedd, mae'n rhaid i'r swyddogion fod wedi eu hawdurdodi yn briodol ac mae'n rhaid gwneud trefniadau i drosglwyddo yr holl brosesau cyfreithiol cysylltiol a'r costau i Gyngor Sir Caerdydd fel yr awdurdod arweiniol.

2.2 Bydd Uned Benthyciadau Arian Anghyfreithlon Cymru yn ychwanegu ar y gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Safonau Masnach o fewn Gwynedd. Darperir costau'r Uned gan y Llywodraeth Ganolog, ac mae Cyngor Sir Caerdydd wedi rhoi yr indemniadau angenrheidiol.

2.3 Ni fyddai rhoi'r pwerau angenrheidiol i Gyngor Sir Caerdydd i gyflawni'r swyddogaeth statudol yma o fewn Gwynedd yn effeithio ar allu Cyngor Gwynedd i gyflawni'r gweithgaredd gorfodaeth ei hun, os yw yn dewis gwneud hynny. Bydd protocol yn cael ei gytuno rhwng y ddau Gyngor fydd yn sefydlu'r trefniadau ar gyfer cydweithio rhwng Uned Benthyciadau Arian Anghyfreithlon Cymru a Safonau Masnach Gwynedd.

2.4 Mae'r fenter hon wedi ei thrafod gan Grŵp Penaethiaid Safonau Masnach Cymru a Chyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru, ac mae ganddi gefnogaeth holl awdurdodau lleol Cymru. Mae'n cael ei fonitro gan grŵp llywio o Benaethiaid Safonau Masnach Cymru.

2.5 Mae penderfyniadau ar drefniadau i gyflawni swyddogaethau statudol gan awdurdod lleol arall dan Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 32 Deddf Llywodraeth Leol 2000 wedi eu cadw i'r Cyngor llawn.

**3. ARGYMHELLIAD.**

3.1 Fod Cyngor Gwynedd yn sefydlu cytundeb gyda Chyngor Sir Caerdydd yn unol ag Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972, adrannau 19 a 32 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliad 15 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru), 2007 i ganiatáu i Gyngor Sir Caerdydd gyflawni'r swyddogaeth o orfodi Rhan III o Ddeddf Credyd Cwsmeriaid 1974 o fewn Gwynedd.